# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 20 Hydref 2006

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A fyddai'r Gweinidog yn rhestru ei weithgareddau i helpu awdurdodau lleol i bennu safleoedd tirlenwi ac ardaloedd ar gyfer ailgylchu. (WAQ48243)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Beth oedd cyfanswm lefel y cymhorthdal a roddwyd gan ei Adran i ffermwyr yng Nghymru yn ystod pob un o'r 10 mlynedd diwethaf; a beth y mae pob ffigur yn ei gynrychioli fesul ffermwr. (WAQ48245)

**Elin Jones (Ceredigion):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw ymateb a wnaeth i ymgynghoriad y CE ar iawndal gwartheg, a gynhaliwyd yn ystod Awst a Medi 2006. (WAQ48246)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa arweiniad a roddwyd i Awdurdodau Cynllunio Lleol ynghylch gosod Tyrbinau Gwynt a brynir o'r sector DIY ar eu heiddo. (WAQ48247)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A yw'r Gweinidog yn rhoi unrhyw arweiniad i Ymddiriedolaethau ynghylch defnyddio posteri a deunyddiau cyhoeddusrwydd eraill, pan fydd ysbytai'n defnyddio'r un ystafelloedd ymgynghori ar gyfer clinigau ffrwythlondeb a gynaecoleg â chlinigau cynenedigol. (WAQ48248)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r dulliau gweithredu gwahanol a geir ar draws y DU wrth drin clefydau niwro-gyhyrol. (WAQ48244)